Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS(2)-03-03(p.2)

Dyddiad: 24 Medi 2003

Amser: 9.00am – 12.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADOLYGIAD POLISI: CYFRANIAD Y CELFYDDYDAU A CHWARAEON AT ADFYWIO CYMUNEDOL.

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac ataf i ym mis Gorffennaf 2003 yn gofyn am "femorandwm ar y cyd" yn amlinellu polisïau a chynlluniau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adfywio cymunedol ym maes y celfyddydau a chwaraeon.

Y Strategaeth Ddiwylliant - Creative Future:Cymru Greadigol

Dyma flaenoriaeth allweddol gyntaf Cymru Greadigol: nid moethusrwydd yn ein bywydau yw diwylliant, nid dim ond addurn sy'n ychwanegol at dasgau materol ein bywydau bob dydd. Mae'n rhan o saernïaeth ein byw. Mae Cymru Greadigol yn gwneud diwylliant yn rhan annatod o'n holl bolisïau a'n cynlluniau. Mae'r 8 Cynllun Gweithredu Blaenoriaethol yn y Strategaeth yn canolbwyntio ar fynediad, ac ar fynediad at ragoriaeth. Nodir dau fan cychwyn yng Nghynllun Gweithredu 4 ar Ddiwylliant a Chymunedau, sef: yn gyntaf, bod diwylliant yn rhywbeth canolog yn hytrach nag ymylol mewn polisïau cyhoeddus ac yn ail, bod yn rhaid i strategaeth ddiwylliant ryddhau egni unigolion yn ogystal â chymunedau lleol a chenedlaethol.

Mae Cynllun Gweithredu 4 yn annog yr awdurdodau lleol i wneud materion diwylliannol yn un o elfennau allweddol eu cynlluniau cymunedol. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi rhagori ar hyn, gan lunio eu strategaethau diwylliannol lleol eu hunain. Mae Cyngor y Celfyddydau yn ariannu Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau drwy gyfrwng cynllun pwrpasol i helpu'r awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad celfyddydau cymunedol. Mae enghreifftiau lu hefyd o gwmnïau celfyddydol sydd â chylch gwaith cenedlaethol yn datblygu rhaglenni estyn allan ar gyfer ysgolion a chymunedau, ac sy'n mynd â chynyrchiadau canolog ar daith i'r cymunedau, er enghraifft, WNO MAX, theatr symudol Clwyd Theatr Cymru a'r gwaith a wneir gan Gwmni Dawns Diversions mewn ysgolion - ac mae llawer iawn o enghreifftiau eraill.

Mae Prifysgol Morgannwg wedi creu Cadair yn y Celfyddydau Cymunedol, a bydd deiliad y swydd honno yn ymchwilio i arferion da ac yn eu datblygu a'u lledaenu ar lefel Cymru gyfan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y Gadair honno, er mwyn nodi, dadansoddi ac adolygu polisïau ar y lefel genedlaethol sy'n anelu at hwyluso ac annog gwaith ac arferion aml-ddisgyblaethol mewn gweithgareddau creadigol a diwylliannol mewn cymunedau. Bydd yr astudiaeth yn mynd rhagddi yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a bydd yn ategu ac yn datblygu'r gwaith a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree yng Nghymru yn 2001, "Creative Regeneration – lessons from ten community arts projects" gan Tim Dwelly. Yn Adroddiad Rowntree, rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith bod sefydliadau celfyddydol yn y gymuned yn gallu chware rhan bwysig o safbwynt adfywio cymunedol.

"Anelu'n Uwch: Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol yng Nghymru"

Cafodd fy strategaeth "Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol yng Nghymru: Anelu'n Uwch" ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori ar 28 Gorffennaf.

Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dyfodol chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yng Nghymru yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Hanfod y Strategaeth yw manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y gall chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol eu gwneud i les Cymru ar draws sawl dimensiwn, gan gynnwys y dimensiynau hynny a fydd o gymorth i adfywio'n cymunedau trwy greu Cymru gymhwysol.

Mae "Anelu'n Uwch" yn cydnabod y gall chwaraeon a gweithgareddau corfforol chwarae rhan bwysig o safbwynt datblygu a gweithredu prosiectau adfywio mewn ardaloedd difreintiedig, yn ogystal â chreu swyddi a busnesau mewn ardaloedd sydd o dan anfantais. Mae'n cydnabod bod chwaraeon o fudd i iechyd corfforol a lles emosiynol unigolion, ond eu bod hefyd yn fodd i ennyn diddordeb pobl leol, yn enwedig pobl ifanc anodd eu cyrraedd, gan annog cydlyniant cymunedol.

Mae'r Fenter Nofio Di-dâl yn Glasgow wedi dangos mai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig y cafodd yr effaith fwyaf. Drwy'r Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Nofio Di-dâl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am greu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau egnïol yn eu cymunedau. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y cynllun peilot yn adlewyrchu'r profiad a gafwyd yn Glasgow, ac mai yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol yn y niferoedd sy'n mynd i nofio.

Yn "Anelu'n Uwch", rhestrir nifer o flaenoriaethau a fydd yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol. Un o'r blaenoriaethau hynny yw sicrhau bod mwy o ymarfer corff yn cael ei wneud yn ein cymunedau. Bydd yn rhaid

wrth gamau priodol er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, a'r blaenoriaethau eraill yn y Strategaeth. Bwriedir cynnal Uwch-gynhadledd Chwaraeon yn ddiweddarach eleni i drafod y camau hyn.

Yr Adolygiad Polisi

Cynhwysiant Cymdeithasol a'r Celfyddydau

Ystyriodd y Pwyllgor Diwylliant bapur ar yr adolygiad polisi hwn ar 2 Gorffennaf 2003 , a chytunodd ar y cylch gorchwyl ar ei gyfer. Yn y papur hwnnw, nodwyd rhai o bolisïau a chynlluniau Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru sy'n anelu at fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol. Yn ogystal â'r rheini, mae Strategaeth 5 Mlynedd Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Datblygu'r Celfyddydau Cefnogi Creadigrwydd yn datgan:

"Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gydnabod y rôl bwysig y gall y celfyddydau ei chwarae i adfywhau ein cymunedau. Mewn rhai cylchoedd mae'r farn yn aros fod y celfyddydau yn rhywbeth ychwanegol yn y dasg o adfywhau cymdogaethau, yn arbennig y rheini sy'n dioddef o amddifadedd lluosog. Gall y celfyddydau ymdrin nid yn unig â symptomau gwaharddiad cymdeithasol yn ein cymunedau, gall hefyd ymdrin â'r achosion. Mae gweithgareddau'r celfyddydau, yn arbennig y rhai hynny a gyflwynir gan sefydliadau celfyddydau cymunedol a chelfyddydau gwirfoddol eisoes wedi dangos eu heffaith uniongyrchol ar y pedwar dangosydd allweddol o waharddiad cymdeithasol: sef iechyd, trosedd, addysg a chyflogaeth.

Ond ni ellir cyflawni hyn ar ei ben ei hun, oherwydd mai'r cynlluniau mwyaf effeithiol ar gyfer y celfyddydau ac adfywhau yw'r rhai hynny yr ymgymerir â hwy mewn partneriaeth â chyrff eraill. Bydd CCC felly yn ceisio cynhyrchu tystiolaeth bellach o effaith cymdeithasol y celfyddydau mewn perthynas â datblygiad cymunedol a gwaharddiad cymdeithasol, a maes o law yn annog mwy o fuddsoddiad o ffynonellau

nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau. "

Er mwyn cefnogi'r egwyddor hon, aeth CCC ati yn 2001 i ariannu chwe phrosiect newydd fel rhan o gynllun ariannu newydd y Celfyddydau mewn Datblygiad Cymunedol wedi'i Dargedu. Diben y mentrau peilot hyn yw cofnodi a dangos manteision y celfyddydau o ran datblygu ac adfywio cymunedau. Dyma'r chwe phrosiect:

- **Gweithdy Serameg Cymunedol y Gurnos ym Merthyr Tudful**
- **Broli Cymraeg yn Sir y Fflint**
- **Arts in Upper Rhymney Valley Regeneration (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)**
- **Y Small World Theatre yn Sir Benfro**
- **Eglwys Gymunedol Noddfa yng Nghaernarfon**
- **Cywaith Cymru yn Sandfields ac Aberafan (Castell-nedd Port Talbot)**

Bellach, mae'r prosiectau ar eu blwyddyn olaf, ac mae CCC wedi comisiynu Celfyddydau Gwirfoddol Cymru i werthuso'u gwaith. Dylai'r adroddiad terfynol fod yn barod erbyn mis Hydref 2004, a bydd yn cynnwys rhestr o ddulliau gweithredu a fydd yn galluogi sefydliadau celfyddydol a chymunedol i arddel yr arferion gorau ym maes y celfyddydau ac adfywio cymunedol.

At hynny, bydd CCC yn cyhoeddi polisi drafft newydd yn ddiweddarach eleni ar effaith gymdeithasol y celfyddydau o safbwynt mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.

Ers sawl blwyddyn, ers dyfodiad y Loteri Genedlaethol, bu CCC yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn ardaloedd difreintiedig. Mae Adroddiadau Grwp yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar Weithredu yn y Meysydd Glo yn dangos bod CCC wedi buddsoddi mwy yn ardaloedd y meysydd glo presennol ac ardaloedd yr hen feysydd glo na'r cyrff eraill sy'n dosbarthu arian y Loteri yn y DU. Rhestir isod enghreifftiau o rai o'r grantiau sy'n cael eu rhoi ar hyn o bryd ac a roddwyd yn y gorffennol ar gyfer y celfyddydau ac adfywio cymunedol:

- **Cymdeithas Gymunedol y Gil-fach Goch, Rhondda Cynon Taf: cafodd arian cyfalaf ac arian y Celfyddydau i Bawb i staffio a darparu offer ar gyfer eu canolfan newydd ac i ddatblygu rhaglen celfyddydau gymunedol fel rhan o'u menter adfywio cymunedol.**

- **Valleys Kids, Rhondda Cynon Taf: ar ôl iddynt gael arian y Celfyddydau i Bawb gan y Loteri am dair blynedd, daeth Valley Kids yn gleientiaid refeniw i CCC er mwyn iddynt fedru parhau â'u gwaith gyda'r celfyddydau ym Mhen-y-graig ac ar Ystad Penyrenglen yn Nhreherbert.**

- **Partneriaeth Pen-rhys, Rhondda Cynon Taf: sefydlwyd canolfan y celfyddydau, a thîm celfyddydau cymunedol drwy arian cyfalaf a thrwy arian y Celfyddydau i Bawb, a hynny o fewn cynlluniau adfywio cyffredinol y Bartneriaeth.**

- **Menter Dyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin: drwy arian cyfalaf a thrwy arian y Celfyddydau i Bawb, mae Menter Dyffryn Aman wedi sefydlu Stiwdios Steers fel rhan o'i rhaglen adfywio cymunedol.**

- **Groundwork - Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr a Rhondda Cynon Taf: mae pob un o'r pedwar sefydliad Groundwork yng Nghymru wedi cael arian i ddatblygu mentrau celfyddydol yn eu rhaglenni ail ddatblygu cymdeithasol ac amgylcheddol.**

- **Grantiau cyfalaf mawr: mae datblygiadau yng Nghaernarfon, Aberteifi, Casnewydd, a Merthyr maes o law, i gyd yn rhan o gynlluniau adfywio ehangach.**

- **Mae grantiau datblygu cyfalaf eraill megis canolfannau celfyddydau cymunedol yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun neu yn Ysgol Gyfun Abertyleri neu ganolfan Arts Alive yng Nghrucywel i gyd yn rhan o gynlluniau ehangach i adfywio cymunedau.**

Yn fwy diweddar, mae CCC wedi parhau i dargedu wardiau Cymunedau yn Gyntaf, gan roi £20,000 yn ychwanegol iddynt. Y nod yw ariannu mwy na 90 o berfformiadau proffesiynol mewn canolfannau cymunedol sydd yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Cynhwysiant Cymdeithasol mewn Chwaraeon

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol mewn dwy ffordd.

Yn gyntaf, mae cynhwysiant yn rhan annatod o holl raglenni datblygu'r cyngor e.e. Arian Cyfalaf SPORTLOT, y Gist Gymunedol a Champau'r Ddraig.

Yn ail, sefydlodd Cyngor Chwaraeon Cymru fforwm Cynhwysiant Cymdeithasol mewn Chwaraeon (SIS) yn 2000 gan neilltuo hyd at £8 miliwn o arian y loteri ar ei gyfer dros gyfnod o bum mlynedd. Nod SIS yw cefnogi dulliau newydd o fynd i'r afael â phroblemau lleol hir dymor sydd ar hyn o bryd yn rhwystro grwpiau penodol rhag cymryd rhan mewn rhaglenni chwaraeon.

Mae rhai prosiectau datblygu cymunedol wedi cael cefnogaeth drwy SIS. Yn eu plith y mae'r Rhyl a De Orllewin y Rhyl, a gafodd gymorth i gyflogi gweithiwr datblygu rhan amser i drefnu mwy o weithgareddau chwaraeon ar ystad dai ddifreintiedig; Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Clydach ar gyfer safle chwaraeon aml-ddefnydd mewn ardal sy'n gwasanaethu teuluoedd agored i niwed.

Chwaraeon Anabledd Cymru

Rhaglen chwaraeon genedlaethol a ddarperir yn lleol yw Chwaraeon Anabledd Cymru, sy'n anelu at gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar y lefel leol. Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth rhwng Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon i'r Anabl (Cymru), Cyngor Chwaraeon Cymru a'r awdurdodau lleol.

Lleiafrifoedd Ethnig

Mae egwyddorion cyfle cyfartal wedi'u hymgorffori yn holl gynlluniau Cyngor Chwaraeon Cymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau â'i waith gyda Chynghorau Cydraddoldeb Hiliol a sefydliadau eraill i sicrhau bod sylw arbennig yn cael ei roi i ymholiadau a cheisiadau am grant gan grwpiau ethnig.

Rhaglen Merched yn Gyntaf

Nod y rhaglen Merched yn Gyntaf yw rhoi cyfleoedd allgyrsiol newydd mewn chwaraeon i ferched mewn ysgolion uwchradd. Mae'r rhaglen yn cael £450,000 y flwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Menter arall, diweddar sydd â'r nod o gynnig mwy o gyfleoedd i fenywod ifanc a merched yw Her y Canolfannau Hamdden. O dan y cynllun, cynigir arian i annog rheolwyr canolfannau hamdden i ddatblygu gweithgareddau newydd neu weithgareddau ychwanegol ar gyfer menywod a merched ac i ystyried dulliau newydd o weithredu a fydd yn gwneud rhaglenni'r canolfannau hynny yn fwy deniadol i fenywod a merched, ac yn rhai y bydd yn haws iddynt fanteisio arnynt.

Y Rhaglen Buddsoddi Cymunedol

Mae'r Rhaglen Buddsoddi Cymunedol yn targedu ardaloedd lle gwelir yr angen mwyaf am nawdd oddi wrth yr awdurdod lleol er mwyn gwella cynaliadwyedd tymor hir cyfleusterau chwaraeon allweddol. Nod y rhaglen yw cael awdurdodau lleol i fuddsoddi cyfran sylweddol o'u cyfalaf er lles cymunedau prin eu hadnoddau.